



Mawrth 3ydd 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma a diolch i griw Pentre'r Eglwys a Thonteg am baratoi ar ein cyfer, ac i Siân am gyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf

Mawrth 10fed - Emlyn

**Davies gyda Carol Williams,
gyda Rhiannon yn cyfeilio**

**Mawrth 17eg - Sul Teuluol
gyda Wendy Reynolds, Huw
a Beth, gyda Siân yn cyfeilio**

Mawrth 24ain - Y Parchg.

**Gethin Rhys gyda Wyn
Jones, a Bethan yn cyfeilio**

**Mawrth 31ain - Allan James
gyda Lyn West ac Eleri yn
cyfeilio**

**Ebrill 7ed - Cynan Llwyd
gyda Lowri Roberts a
Rhiannon yn cyfeilio**

**Ebrill 14eg - Y Parchg. Aled
Edwards gyda Nia Williams
gyda Eleri yn cyfeilio**

**Ebrill 21ain - Sul Teuluol
gyda Heulyn a Catrin gyda
Sian yn cyfeilio**

**Ebrill 28ain - Geraint a
Caroline Rees gyda Bethan
yn cyfeilio**

ELUSENNAU 2019

Dyma'r elusennau y byddwn yn eu cefnogi drwy gasgliad yr amlenni brown eleni:

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Adref, Ysgol Tŷ Coch

Cymorth i Ferched Cymru & CRICA

Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth gyson. Mae CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o'r cyflwr.

CASGLIADAU DILLAD A NWDYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Maen nhw'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth.

CYNHADLEDD WANWYN CRISTNOGAETH 21

Ar 29 a 30 Mawrth yn Aberystwyth ar y thema 'Dechrau o'r Newydd'. Bydd cyflwyniad theatrig ar y nos Wener, a darlithoedd ar y Sadwrn gyda Cynog Dafis, Arwel Jones, Catrin Haf Williams, Huw Williams a Gareth Wyn Jones. Mae'r manylion llawn ar wefan: <http://cristnogaeth21.cymru/newyddion>

Merched y Tabernacl

Dydd Mercher 6 Mawrth 12.30 pm
ar gyfer 1.00 pm
Cinio i Ddathlu Dydd Gwyl Ddewi
yng Ngwesty'r Bear, Y Bontfaen
Enwau os gwelwch yn dda i
Beti Treharne

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com

APÊL MADAGASCAR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Yn ystod mis Mawrth fe godwyd tua £500 tuag at ein apêl. Diolch i'r Twmiaid am y stondin cacennau wedi'r oedfa ac am noson jazz yn 7 Penywaun. Os ydych am drefnu gweithgaredd, cofiwch hysbysebu yma. Mae gyda ni tan fis Mehefin i gyrraedd ein nod o £5,000 i gefnogi pedair elusen sy'n gweithio gyda'r tlawd a'r anghenus ym Madagascar, un o bedair gwlad dlotaf y byd.

Dyfyniad yr Wythnos

Mae'n torri fy nghalon fod pobl erbyn hyn yn gweld Cristnogaeth fel crefydd sydd yn erbyn popeth – yn erbyn pobl hoyw, merched a mwslemiaid. Nid dyna'r efengyl. Mae'r efengyl yn neges hyfryd o gariad a thosturi gan dduw a'n creodd ni i gyd.....

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

Mae gwybodaeth am waith yr elusennau a llawer arall ar wefan y capel: www.tabernacl.org

Mae gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud o amgylch y fynwent ar hyn o bryd. Plis cymerwch ofal os fyddwch yn ymweld. Diolch.



"Dere 'mlaen Dduw. Mewn â ti....."

.....a gwela i ddim un posibilrwydd y byddai'n dymuno i rywun gael ei daflu allan neu i fod ar wahân i'w gymuned"

Y Parch. Valerie Gittings
West Virginia UDA